**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

1 Medi 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf ynghylch barn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar fy Natganiad Deddfwriaethol diweddar.

Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn rhan hanfodol o'n rhaglen lywodraethu uchelgeisiol a radical, a byddwn yn cyflwyno nifer digynsail o Filiau cyn diwedd tymor y Senedd hon. Canlyniad hyn yw bod angen blaenoriaethu deddfwriaeth lle mae amser yn ystyriaeth hanfodol yn nhrydedd flwyddyn ein rhaglen. Mae hyn yn cynnwys Biliau i ddiwygio'r Senedd a chyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr a etholir i Senedd Cymru, yn ogystal â Bil i ddiwygio'r system etholiadol a ddylai, o dan gonfensiwn sefydlog, fod ar waith o leiaf 6 mis cyn etholiad. Er nad yw'r Biliau hyn yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, maent yn ffactor pwysig wrth bennu trefn y Biliau yn y rhaglen y bydd y Llywodraeth yn ei chyflwyno.

Byddwn yn cyflwyno Bil Bysiau i ddiwygio'r ddarpariaeth gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn ystod tymor y gwanwyn 2024. Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor yn ystyried dau fil arall gan y Llywodraeth ar hyn o bryd ac, er mwyn osgoi gorlwytho'r Pwyllgor, byddwn yn cyflwyno'r Bil Bysiau ar ôl i'r Pwyllgor gwblhau ei waith craffu ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) a phan fydd y Bil Seilwaith (Cymru) wedi cyrraedd Cyfnod 3. Bydd y Bil Diogelwch Tomenni nas Defnyddir, a fydd yn diwygio cyfreithiau ynghylch diogelwch tomenni glo a thomenni sborion yn fwy cyffredinol, yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn ddeddfwriaethol ar ôl i'r Pwyllgor gwblhau ei ystyriaeth o'r Bil Seilwaith (Cymru). Bydd y dull hwn hefyd yn ein galluogi i gynnal camau diwygio'r Bil Bysiau a'r Bil Diogelwch Tomenni nas Defnyddir ar wahân a bydd yn golygu nad yw'n ofynnol i'r Pwyllgor graffu ar fwy na dau Fil gan y Llywodraeth ar yr un pryd.

Mae Bil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru a chyflwyno dyletswydd statudol a thargedau i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon a gallaf sicrhau'r Pwyllgor y byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon.

Bydd Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn parhau i oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru hyd nes y sefydlir corff parhaol. Er nad yw'r trefniadau dros dro yn atgynhyrchu'n union yr hyn oedd ar waith cyn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'r Asesydd Interim yn cyflawni rôl bwysig wrth adolygu fframwaith cyfraith amgylcheddol. Byddwn hefyd yn cryfhau'r trefniadau dros dro drwy recriwtio dirprwy i Dr Llewelyn Jones yn y cyfnod interim hwn. Edrychaf ymlaen at ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r Senedd wrth inni ddatblygu'r ddeddfwriaeth bwysig hon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**